Adroddiad Terfynol

MENTER MYNEDIAD IEUENCTID CYMRU

Arfarniad Estyn o brosiectau a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2002. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod y caiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu hatgynhyrchu air am air heb eu haddasu, gan nodi'r ffynhonnell a'r dyddiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 20 446446

Estyn

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys	Tudalen

1 Cyflwyniad 1

2 Prif ganfyddiadau 3

3 Cyflawniadau pobl ifanc 7
Deilliannau i bobl ifanc 7
Achredu 8
Presenoldeb 9
Dilyniant a chyrchfannau 10

4 Ansawdd y gwaith gyda phobl ifanc 11
Cymorth i bobl ifanc 11
Cyfeirio 11
Perthnasedd 11
Pobl ifanc gydag ymddygiad troseddol 12

5 Rheoli mentrau lleol 13
Ansawdd rheolaeth a chynllunio 13

6 Cwricwlwm 14
Cynllunio a hawliau 14
Medrau sylfaenol a medrau allweddol 14
Profiad gwaith 15

7 Y berthynas gydag ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant 17
Agweddau 17
Ail-integreiddio 18

8 Rheoli adnoddau 19
Ariannu 19
Staffio 19
Adeiladau ac offer 20

9 Rheoli ansawdd 21
Monitro a gwerthuso 21
Pobl ifanc sy'n derbyn gofal 22

10 Argymhellion 23

11 Y gwasanaeth cefnogi ieuenctid newydd 25

Atodiad 1 26
Cefndir y Fenter Mynediad Ieuenctid 26
Nodau'r Fenter Mynediad Ieuenctid 27

1. Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud trefniadau newydd i ddatblygu polisïau ieuenctid. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig crynodeb o'r hyn all y Fenter Mynediad Ieuenctid ei wneud i ddatblygu gwasanaeth ieuenctid newydd. Er y cyflawnwyd llawer, mae angen sicrhau gwelliant sylweddol o ran:

- rheolaeth strategol mentrau lleol;
- y cwricwlwm sydd ar gael;
- rheolaeth ansawdd, yn enwedig casglu a dadansoddi data; ac
- olrhain cynnydd pobl ifanc.

Y Fenter Mynediad Ieuenctid

Roedd y Fenter Mynediad Ieuenctid yn rhaglen dair blynedd a ariannwyd o fis Ebrill 1998 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail bidiau blynyddol. Y prif nodau, fel a nodwyd gan y Cynulliad oedd:

- helpu pobl ifanc sy'n iau nag oedran gadael ysgol sydd wedi cefnu ar addysg arferol, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, i gael eu hail-integreiddio i addysg ffurfiol neu i symud ymlaen i gael mathau effeithiol eraill o addysg a hyfforddiant sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn; a

- helpu pobl ifanc sy'n hŷn na'r oedran gadael ysgol nad ydynt yn cael addysg neu hyfforddiant neu nad oes swydd ganddynt, i symud ymlaen i ddulliau effeithiol o addysg neu hyfforddiant neu ymlaen i swydd.

Elfen allweddol o'r rhaglen oedd cynnig cymorth i bobl ifanc er mwyn gwella'u medrau sylfaenol, gan sicrhau felly eu bod yn gallu symud ymlaen yn llwyddiannus.

Roedd data a drosglwyddwyd gan Awdurdodau Lleol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2000 yn dangos bod gan 3428 o bobl ifanc gyswllt â'r Fenter Mynediad Ieuenctid ar yr adeg honno. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn nad yw'r data hwn yn gadarn.

Gellir gweld cefndir mwy cyflawn i'r Fenter Mynediad Ieuenctid yn Atodiad 1.

Wrth gynnal arolygiadau a arweiniodd at yr adroddiad hwn, cyfarfu arolygwyr EM â grwpiau llywio, staff a hyfforddwyr sy'n gyfrifol am gydgysylltu, gweithwyr ieuenctid ac athrawon. Gwnaethant arsylwi sesiynau mewn ysgolion, colegau, canolfannau ieuenctid a chanolfannau galw i mewn ac adeiladau cyflogwyr, gan drafod materion â phobl ifanc a staff ac archwilio dogfennau.

Mae'r adroddiad hwn yn datblygu canfyddiadau'r Adroddiad Interim (Estyn 1999), ymweliadau arolygu pellach ac arolwg a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2000. Mae'n canolbwyntio ar faterion allweddol yn codi o ymweliadau'r arolygwyr. Ystyriwyd canfyddiadau ac argymhellion Adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA), (Arfarniad o'r Fenter Mynediad Ieuenctid, Ebrill 2000), ac adroddiad Estyn ar y Rhaglen Bartneriaeth Ysgolion a Gwaith Ieuenctid cysylltiedig (Ansawdd a Safonau yn y Rhaglen Bartneriaeth Ysgolion a Gwaith Ieuenctid: tuag at Wasanaeth Cefnogi Ieuenctid newydd, Rhagfyr 2000).

2. Prif ganfyddiadau

Cyflawniadau pobl ifanc

- Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc a fu'n gysylltiedig â'r prosiectau wedi dysgu medrau newydd ac mae ganddynt lawer mwy o hunan-barch. Mae eu hagwedd tuag at addysg, hyfforddiant a'u rhagolygon am swydd yn y dyfodol yn fwyfwy cadarnhaol. Mae'r mwyafrif wedi gwella'u gallu i gysylltu ag eraill gan ddatblygu eu medrau cymdeithasol.

- Fodd bynnag, tanseilir y datblygiadau hyn yn ddifrifol mewn dros hanner yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy. Yma mae rheolaeth mentrau yn wael ar y cyfan ac mae datblygiad a chynllunio strategol gyda darparwyr eraill i hyrwyddo dilyniant yn wan. Mae hwn yn ddiffyg pwysig.

- Mae presenoldeb yn dda yn yr holl brosiectau a arolygwyd. Mae'r Fenter Mynediad Ieuenctid wedi cael effaith sylweddol ar y rhai nad ydynt yn mynychu a'r rhai sy'n mynychu o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn wir ymysg prosiectau cyn-16 ac ôl-16.

- Y mae nifer sylweddol o bobl ifanc a fyddai fel arall wedi gadael addysg ffurfiol heb unrhyw gymwysterau yn cael cydnabyddiaeth am eu gwaith.

- Dengys data a ddarparwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan 15 awdurdod lleol bod oddeutu 70% o bobl ifanc ar eu prosiectau Mynediad Ieuenctid yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith neu un o gynlluniau eraill y llywodraeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei gofnodi'n wael ac mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn nad yw'r data yn gadarn.

Ansawdd y gwaith gyda phobl ifanc

- Mae staff y Fenter Mynediad Ieuenctid yn gweithio'n dda gyda phobl ifanc, gan ffurfio perthnasau ystyrlon a bod yn gyfaill beirniadol yn aml. Yn y mwyafrif o achosion, maent yn cynllunio gwaith yn dda ac yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar y bobl ifanc a'r Fenter Mynediad Ieuenctid.

- Mae'r berthynas rhwng y staff a'r bobl ifanc yn gyson dda ac ar y cyfan mae'r prosiectau'n cynnig cymorth ardderchog. Mae'r dull gweithredu anfeirniadol a hyblyg a fabwysiadir gan y gweithwyr ieuenctid yn creu ymddiriedaeth y mae'r staff a'r bobl ifanc yn adeiladu arno mewn amrywiaeth o ffyrdd.

- Mae datblygu ffyrdd gwahanol o weithio gyda phobl ifanc yn enghreifftiau da o weithio gyda rhai ag ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau hyn yn eang ac ni chânt eu cofnodi'n dda. Mae'r trefniadau partneriaeth gyda Chyfiawnder Ieuenctid, Timau Troseddu Ieuenctid a'r heddlu yn wan, yn bennaf oherwydd nad yw adrannau awdurdodau lleol yn cydweithio digon ac ar y cyfan dechrau datblygu y mae'r gwaith gyda'r heddlu.

Rheoli cynlluniau lleol

- Mewn llawer o achosion, mae rheolaeth prosiectau Menter Mynediad Ieuenctid yn wael a cheir diffyg gweledigaeth strategol. Er y cynllunnir prosiectau unigol yn dda, mae diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol yn aml a rhwng prosiectau yn yr ardal. Ble ceir strategaeth gyffredinol, mae gweithwyr prosiectau unigol heb wybod amdani yn rhy aml. Mae hwn yn ddiffyg pwysig.

- Y prosiectau sydd â chydgysylltydd dynodedig yw'r rhai sy'n cael eu rheoli orau, ac sy'n osgoi gwrthdaro anghynhyrchiol rhwng darparwyr gwasanaethau.

- Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd wedi datblygu systemau cyfeirio da ond nid ydynt bob amser yn cyfeirio neu'n targedu'r bobl ifanc sy'n cael y trafferthion mwyaf, yn enwedig y rhai ôl-16. Mewn rhai ardaloedd, mae hyn wedi arwain at rai o'r bobl ifanc gyda'r angen mwyaf i fethu â chael mynediad i gynlluniau.

- Un nodwedd gadarnhaol iawn o'r Fenter Mynediad Ieuenctid yw'r ffordd y mae rhai asiantaethau yn gweithio mewn partneriaeth yn lleol i ddarparu prosiectau. Mae'r perthnasau lleol da a ddatblygir yn cyfrannu at gydweithredu a chynllunio mewn Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant lleol.

Cwricwlwm

- Mae yna enghreifftiau o becynnau dysgu arloesol ond mae cynllunio'r cwricwlwm yn wan ar y cyfan. Mae'n aml yn rhy gyfyng ac nid yw'n cynnig her ac ysgogiad. Mae hyn yn arbennig o wir gyda gwaith TGCh. Yn aml, mae'r broses o rannu syniadau ac adnoddau yn gyfyngedig, hyd yn oed o fewn yr un ardal ddaearyddol.

- Mae pobl ifanc yn cael cymorth unigol gyda medrau allweddol, ond ni roddir digon o bwyslais ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd. Mae rhai prosiectau wedi mabwysiadu dull gweithredu creadigol, ond mae'r dystiolaeth o gynnydd sylweddol yn anghyson. Collir sawl cyfle i addysgu holl gydrannau'r rhaglen medrau allweddol.

- Mae ystod eang o achrediad ar gael i bobl ifanc bellach, ond golyga diffyg cydgysylltu cyffredinol rhwng prosiectau nad oes gan bobl ifanc yr un dewis neu gyfle i'w cyflawniadau gael eu cydnabod yn swyddogol.

Y berthynas gydag ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant

- Mae llawer, ond nid pob, aelod o staff uwch mewn ysgolion yn awr yn cydnabod bod agwedd y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r Fenter Mynediad Ieuenctid wedi gwella, a'u bod yn awyddus i gymryd rhan mewn rhaglenni.

- Nid yw prosiectau mewn ysgolion sy'n ceisio targedu'r rhai sy'n tangyflawni bob amser yn cyrraedd nod y Fenter Mynediad Ieuenctid o dargedu'r rhai sydd mewn perygl go iawn o adael cyn pryd. Fodd bynnag, mae nifer o bobl ifanc yn y prosiectau hyn yn datblygu ac yn sicrhau gwell canlyniadau na'r disgwyl.

- Mae prosiectau sy'n debyg i'r Rhaglen Bartneriaeth Ysgolion a Gwaith Ieuenctid, lle mae gweithiwr ieuenctid yn gweithio yn yr ysgol, yn fwy llwyddiannus wrth gadw pobl ifanc ym mhrif ffrwd bywyd ysgol nag ymgeisio i ailintegreiddio pobl ifanc unwaith y maent wedi bod allan o leoliad yr ysgol am gyfnodau hir.

- Mae nifer o golegau yn cydnabod bod pobl ifanc yn elwa o gael eu cyflwyno'n gynnar, trwy gyfrwng prosiectau Mynediad Ieuenctid, i waith galwedigaethol a bywyd coleg. Maent yn awyddus i gynnwys pobl ifanc mewn grwpiau neu'n unigol a chyflwyno mesurau fydd yn annog y myfyrwyr hyn i gofrestru ar gyrsiau pellach.

- Yn y mwyafrif o achosion, mae pobl ifanc yn elwa o gael eu lleoli gyda darparwyr hyfforddiant preifat a chyflogwyr. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gadarnhaol iawn am y bobl ifanc sydd ar leoliad gyda nhw, ond mae gwir ddiffyg lleoliadau gwaith ystyrlon ac amrywiol. Anaml iawn y dadansoddir cyflawniadau a sicrheir ar leoliad yn llawn.

Rheoli adnoddau

- Nid yw'r Fenter Mynediad Ieuenctid wedi llwyddo i ddenu ffynonellau ariannol eraill eto, ond mewn nifer o ardaloedd, mae gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at ddefnyddio llwybrau ariannu sy'n bodoli eisoes mewn ffordd greadigol.

- Mae'r staffio yn dda iawn ar y cyfan. Mae gan weithwyr wyneb-yn-wyneb amrywiaeth o gymwysterau a galluoedd sy'n eu galluogi i weithio gyda phobl ifanc. Maent yn dod ag amrywiaeth eang o brofiadau i brosiectau.

- Mae rhai mentrau, ond nid pob menter, yn defnyddio hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol sy'n helpu i ddatblygu medrau a newid agweddau staff ledled y sefydliadau partner. Mae diffyg hyfforddiant ym maes tasgau rheoli penodol.

- Defnyddir cyllideb CAGC mewn rhai ardaloedd er mwyn darparu hyfforddiant ar y cyd. Mae hyn yn lledaenu arfer da, ond yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond dechrau datblygu y mae cynlluniau datblygu staff.

- Mae ansawdd yr adeiladau'n amrywio. Mae llawer ohono'n dda ond mewn rhai achosion, mae'n anfoddhaol ac yn ddiflas.

- Mae ansawdd offer TGCh a'r mynediad iddo'n amrywio o dda iawn i wael. Mae rhywfaint ohono wedi dyddio.

Rheoli ansawdd

- Mae rhai ardaloedd yn datblygu systemau sicrhau ansawdd trylwyr, ond mae'r pwyslais ar fonitro a gwerthuso'n amrywio'n sylweddol. Ni ddefnyddir systemau hunan-arfarnu ac asesiadau gan gydweithwyr.

- Mae diffyg data dibynadwy am brosiectau'r Fenter Mynediad Ieuenctid o hyd. Ni ddefnyddir digon o systemau TGCh eto i gofnodi, cadw golwg ar ddata, a monitro data. Mae dadansoddi data i hysbysu cynlluniau yn y dyfodol yn parhau'n wan.

- Ni roddir digon o ystyriaethau i dargedau'r llywodraeth ar gyfer pobl ifanc wrth gynllunio'r ddarpariaeth ym mhob ardal.

- Pennir targedau unigol ar gyfer pobl ifanc ac mae gweithwyr yn aml yn cadw cofnodion da o gyflawniadau pobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion hyn yn systematig ym mhob ardal ac nid ydynt yn cynnwys digon o dystiolaeth o gynnydd a chyrchfannau.

- Mae'r fenter wedi bod yn siomedig o ran targedu pobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ni rennir gwybodaeth mewn ffordd systematig rhwng asiantaethau a phan fo aelodau o'r grŵp hwn sy'n agored i niwed yn mynychu gweithgareddau a gynhelir gan y Fenter Mynediad Ieuenctid, nid yw'r gwaith penodol o fonitro a chofnodi eu cynnydd yn cael ei gydgysylltu'n ganolog.

3. Cyflawniadau pobl ifanc

Deilliannau i bobl ifanc

Mae mwyafrif y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau'r Fenter Mynediad Ieuenctid yn elwa o'r profiad. Yn aml ceir mwy o gymhelliant, hunan-hyder ac agwedd fwy cadarnhaol tuag at addysg, hyfforddiant a rhagolygon am waith yn y dyfodol. Mae medrau cymdeithasol pobl ifanc yn gwella, yn aml o sylfaen isel iawn gan ddangos eu bod yn gallu cydweithredu ag eraill yn well hefyd. Pan gânt gyfle i gychwyn o'r newydd mewn lleoliad gwahanol, gyda gwahanol weithgareddau a pherthynas gydag oedolion, maent yn medru dirnad gwir werth a pherthnasedd addysg a hyfforddiant yn eu bywydau eu hunain yn well.

Un o lwyddiannau mwyaf cadarnhaol y Fenter Mynediad Ieuenctid fu ail-gynnwys pobl ifanc gyda chymorth oedolion nad ydynt yn awdurdodus, sy'n gallu datblygu perthynas ardderchog a pharhaus gyda nhw'n aml. Mae hon yn enghraifft o gyflawniad ar ran y bobl ifanc a'r staff sy'n gweithio iddynt. Mae hyn yn digwydd pan fo perthnasau mewn ysgolion wedi methu, amgylchiadau yn y cartref yn anodd o bosib ac efallai fod diffyg esiamplau o batrwm ymddwyn yn y gymuned.

Mae'r cyfle i weithio fesul cam bychan mewn grwpiau llai wedi bod o fudd i lawer o bobl ifanc. Mae'r ffaith bod y gyfradd oedolion-pobl ifanc yn uchel ar y prosiectau yn ffactor arwyddocaol yn hyn o beth, yn yr un modd â dulliau gweithredu amgen tuag at addysgu a rheoli'r bobl ifanc.

Trwy gydol y fenter, caiff pobl ifanc gyfle yn gynnar i ystyried dewisiadau o'r newydd trwy fynychu coleg, gan gynnwys ystyried amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol. Mae nifer o enghreifftiau o gynnydd unigol ac er na chaiff hyn ei gofnodi'n dda bob amser, ceir tystiolaeth bod nifer o bobl ifanc yn aeddfedu, yn cyflawni mwy ac yn symud ymlaen i gyrsiau eraill yn y coleg, hyfforddiant, Porth Ieuenctid neu i fyd gwaith.

Sut mae cymorth y Fenter Mynediad Ieuenctid wedi cael effaith ddramatig ar gyflawniad un unigolyn ifanc

Cyfeiriwyd un dyn ifanc oedd yn cael gofal maeth, gyda chefndir o ymddygiad troseddol difrifol, i weithwyr Mynediad Ieuenctid gan y Tîm Troseddu Ieuenctid cyn gadael yr ysgol. Rhoddwyd llawer o gymorth iddo gan nifer o asiantaethau ac erbyn hyn, mae'n astudio cymhwyster CGC Lefel 1 Gweinyddu Busnes gyda darparwr hyfforddiant lleol. Enillodd wobr "Hyfforddai y Flwyddyn" yn ei ardal yn ddiweddar a'i uchelgais yw bod yn weithiwr ieuenctid.

Mae Menter Mynediad Ieuenctid wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fedrau cymdeithasol pobl ifanc. Mae'r bobl ifanc wedi aeddfedu a datblygu perthynas well ag eraill. I lawer o bobl ifanc yn y Fenter Mynediad Ieuenctid, mae codi a chyrraedd eu gweithgaredd mewn pryd yn gyflawniad o bwys. Mae'n anodd mesur cynnydd fel hyn ac mae tystiolaeth o ddatblygiad yn aml yn anecdotaidd.

Dengys yr enghraifft hon sut mae'r ysgol yn casglu tystiolaeth ffurfiol ac anffurfiol	Dilynodd deg ar hugain o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 mewn ysgol gyfun, raglen gwricwlwm a gynlluniwyd i ddelio â phroblem anfodlonrwydd. Defnyddiwyd meini prawf addas ac eglur i ddewis disgyblion. Roedd pob un yn astudio TGAU neu Dystysgrif Cyflawniad Addysgol yn y pynciau craidd y cawsant eu hintegreiddio'n llawn ar eu cyfer â dosbarthiadau'r brif ffrwd. Roeddent yn parhau'n rhan o grŵp eu blwyddyn ar gyfer cofrestru, rhaglen fugeiliol yr ysgol, gwersi ABCh, TG a'r Cynllun Gwobrwyo Ieuenctid. O ran gweddill eu cwricwlwm, bu'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglen weithgareddau ddiddorol ac ysgogol, yn aml trwy gyfrwng ystod o gyrsiau achrededig, y darparwyd nifer ohonynt gan ddarparwyr allanol. Cynhyrchwyd gwaith o ansawdd rhagorol yn sgil prosiect ffotograffiaeth arloesol. Bu'r disgyblion yn tynnu lluniau mewn amrywiaeth o safleoedd i ddangos agweddau cyferbyniol ar yr amgylchedd lleol. Lluniwyd albymau ganddynt o'r lluniau gan ddewis rhai i'w harddangos. Buont wrthi hefyd yn llunio byrddau arddangos a threfnu golau i lunio oriel ddeniadol. Mae'r arddangosfa yng nghyntedd yr ysgol o ansawdd uchel ac yn cael ei gwerthfawrogi gan y disgyblion, y staff ac ymwelwyr â'r ysgol.

Mae'r bobl ifanc wedi sicrhau:

- medrau cymdeithasol ac ymarferol;
- mwy o wybodaeth am eu hamgylchedd;
- cymwysterau ffurfiol; a
- pharch tuag at eu hysgol a'r gymuned leol a chan eu hysgol a'r gymuned leol.

Mae rhai prosiectau'n datblygu ffyrdd creadigol o ddogfennu cyflawniad yn yr amrywiaeth o weithgareddau y mae'r bobl ifanc yn eu gwneud. Cofnodir tystiolaeth yn aml mewn ffolder personol. Defnyddir Cofnodion Cyflawniad, ond mae angen gwneud mwy o waith ar y broses o gofnodi "camau bach" a newid agweddau a datblygu aeddfedrwydd. Mae'r dogfennau'n ymwneud â hyn yn lleol, heb eu cydgysylltu ac yn anghyson.

Mae staff mewn rhai ardaloedd yn datblygu ffyrdd o gofnodi cynnydd pobl ifanc ar gronfa ddata electronig, ond mae diffyg systemau cofnodi ac ystadegau dibynadwy, a diffyg dadansoddi data a gesglir, yn golygu ei bod yn amhosibl mesur llwyddiant prosiectau ar hyn o bryd yn lleol nac yng Nghymru gyfan.

Achredu

Cynigir ystod o ddewisiadau achredu i bobl ifanc ar brosiectau. Mae cryn nifer a fyddai wedi gadael addysg ffurfiol heb unrhyw gymwysterau fel arall, yn cael cydnabyddiaeth am eu gwaith. Mae'r rhai sydd eisoes wedi gadael yr ysgol, ac mewn rhai achosion, y rhai sy'n dilyn rhaglenni arbenigol yn yr ysgol, wedi cael y cyfle i sicrhau achrediad nad yw ar gael yn y cwricwlwm arferol mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys Tystysgrif Cyflawniad Addysgol, Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol, Cymwysterau

Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 1, credydau'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA), gwobrau Cynllun Gwobrwyo Dug Caeredin, Hyfforddi Ieuenctid 2000, cymwysterau Sefydliad y Ddinas Urddau a Gwobrwyon Ieuenctid. Mae rhai wedi sicrhau achrediad ym maes hyfforddi pêl-droed. Mae credydau'r RhCA yn cynnig ffordd hyblyg i bobl ifanc gyflawni ar sail hicynnau. Caiff rhai pobl ifanc ar gynlluniau eu cofrestru i sefyll arholiadau TGAU gan eu hysgol o hyd. Ni ddefnyddir digon ar gydlynwyr Menter Mynediad Ieuenctid i gynnig cymorth a monitro cynnydd academaidd pobl ifanc mewn prosiectau a gynhelir mewn ysgolion.

Arfer da o ran swyddogaeth y cydlynydd	Mewn un ardal, mae Cydlynydd y Fenter Mynediad Ieuenctid yn gyfrifol am achredu a chofnodi cyflawniadau pobl ifanc yn llawn. Yn flaenorol, roedd ysgolion wedi cadw'r swyddogaeth hon er nad oedd ganddynt fawr iawn o gyswllt â'r bobl ifanc mewn gwirionedd. Bellach, mae'r cydlynydd yn medru canolbwyntio ar bob unigolyn ifanc, gan fod yn gyfrifol am bob agwedd o'u dysgu gan gynnwys cyflawniadau academaidd a hyfforddi yn ogystal â gofal bugeiliol.

Er bod rhai pobl ifanc yn sicrhau cymwysterau Lefel 1 Grymgair a Grymrhif Sefydliad y Ddinas Urddau, nid oes digon o dystiolaeth o gynnydd sylweddol mewn llythrennedd a rhifedd o hyd. Defnyddir TG yn y rhan fwyaf o ardaloedd i hwyluso llythrennedd a rhifedd a gwaith yn ymwneud â medrau allweddol. Roedd rhai pobl ifanc a gyfwelwyd, yn enwedig bechgyn, yn ystyried hyn yn waith "teipio" nad yw'n weithgaredd â phwrpas iddo yn eu barn hwy, ac yn bendant ddim yn fedr "macho". Mewn rhai achosion, mae eu medrau technegol ym maes TG yn ddigon datblygedig i alluogi bechgyn a merched i ddilyn mathau eraill mwy creadigol o gymhwyster TG. Mae ambell weithiwr Menter Mynediad Ieuenctid yn pryderu am effaith cyflwyno achredu yn seiliedig ar arholiad ar gyfer medrau allweddol, ar allu eu grŵp cleientiaid i gyflawni.

Mae diffyg cyfle i bob ifanc sicrhau achrediad mewn rhai mathau o hyfforddiant yn seiliedig ar fedrau, yn enwedig mewn meysydd arbenigol megis medrau cefn gwlad a ffermio, lle na chynigir darpariaeth yn y coleg lleol. Mae cyflogwyr yn aml yn adrodd bod unigolyn ifanc yn cyflawni'n dda mewn lleoliad, ond ni chaiff hyn ei gydnabod yn ffurfiol yn aml iawn.

Nid yw'r wybodaeth ystadegol a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dangos yn bendant nifer y bobl ifanc sy'n gadael y Fenter Mynediad Ieuenctid gyda rhyw fath o dystysgrif neu gymhwyster. Mewn rhai ardaloedd, prin yw'r dystiolaeth am gyflawniad na chyrhaeddiad.

Presenoldeb

Mae'r presenoldeb yn y rhan fwyaf o brosiectau yn dda iawn, gan ddangos gwelliant anhygoel o sylfaen isel iawn mewn ysgolion mewn nifer o achosion. Mae'n aml yn anodd gwneud cymhariaeth go iawn, fodd bynnag, oherwydd y caiff pobl ifanc eu cludo i weithrediadau prosiect yn aml. Darperir cludiant ac mae'r gweithwyr yn aml yn codi pobl ifanc yn y bore ac yn mynd i chwilio amdanynt os na fyddant yn cyrraedd y man cywir ar yr adeg gywir. Mae hwn yn fantais nad yw ysgolion yn medru manteisio arno ar y cyfan. Mae presenoldeb da ym mhob math o brosiectau wedi arwain at well cyflawniad ar y cyfan a chryn welliant mewn ymrwymiad i weithgareddau.

Mae targedu presenoldeb yn arwain at well cymwysterau a dilyniant	Mae prosiect presenoldeb mewn un coleg wedi gwella'r presenoldeb ar gyfartaledd o 29% i 89%. Targedwyd 10 disgybl ym Mlwyddyn 11, yn yr Uned Cefnogi Dysgu, oedd â phresenoldeb dan 50%. Roedd pedwar yn gysylltiedig â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol ac roedd dau'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol. Roedd gan chwech o'r 10 hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roeddent yn dilyn cymysgedd o weithgareddau academaidd a galwedigaethol. Roedd y garfan yr ymwelwyd â hwy i gyd wedi sicrhau cymwysterau ac roedd rhai yn symud ymlaen i gwrs coleg.

Mewn rhai, yn enwedig prosiectau ôl-16, ceir agwedd fwy llac tuag at brydlondeb. Ystyrir bod cyrraedd yn hwyr yn well na pheidio â chyrraedd o gwbl, yn enwedig o ystyried amgylchiadau personol difreintiedig. Mae cyrraedd yn hwyr yn aml yn tarfu ar y sesiynau fodd bynnag, ac ni roddir digon o bwyslais ar yr angen i fod yn brydlon fel medr allweddol sy'n angenrheidiol ym myd gwaith. Er y gallai hyn fod yn addas yn gynnar yn y cyswllt â phobl ifanc, ni symudir ymlaen i ddull gweithredu mwy disgybledig bob amser.

Dilyniant a chyrchfannau

Er bod ambell i enghraifft o arfer da, ni roddir digon o sylw i gynllunio llwybrau dilyniant ar gyfer pobl ifanc neu gofnodi cyrchfannau.

Mae cwmnïau gyrfaoedd yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r agwedd hon ar y Fenter Mynediad Ieuenctid weithiau, ond ni chyd-drefnir yr ymdrechion. Dengys yr ystadegau a gyflwynwyd i Estyn gan gwmnïau gyrfaoedd er enghraifft, na chyfeiriwyd bron i unrhyw gleientiaid yn uniongyrchol i Borth Ieuenctid o raglenni Mynediad Ieuenctid, ond ceir nifer fawr o enghreifftiau da o gydweithio agos rhwng staff cwmnïau gyrfaoedd a'r prosiectau Mynediad Ieuenctid. Mewn rhai achosion, mae staff gyrfaoedd yn helpu i gyflwyno prosiectau a cheir cyfeiriadau uniongyrchol, ond heb eu cofnodi, i Borth Ieuenctid. Felly, mae'r dilyniant o Mynediad Ieuenctid i Borth Ieuenctid yn fwy effeithiol nag a awgryma'r ystadegau.

Cyd-lynu da rhwng prosiectau	Mewn un enghraifft dda, mae prosiect ieuenctid awdurdod lleol, a ariannir gan amrywiaeth o ffynonellau, yn gweithio gyda phobl ifanc sydd naill ai wedi gadael gweithgareddau Menter Mynediad Ieuenctid neu heb gael y cyfle i gymryd rhan ynddynt. Mae un o'r gweithwyr, mewn partneriaeth â'r asiantaethau dan sylw, yn ymweld â'r coleg lleol i geisio sicrhau bod pobl ifanc yn y garfan Menter Mynediad Ieuenctid presennol yn y coleg, yn parhau â chyrsiau ffurfiol ar ôl i'w prosiect ddod i ben.

4. Ansawdd y gwaith gyda phobl ifanc

Cymorth i bobl ifanc

Mae staff prosiect yn gwneud ymdrech sylweddol i gynnig cymorth i bobl ifanc a datblygu eu potensial unigol. Mae staff prosiectau yn dod ag ystod eang o brofiad i leoliadau ysgol ac maent yn medru cyflwyno neu hwyluso dysgu penodol ym mhob math o brosiect. Caiff y gwaith ei gynllunio'n dda fel arfer.

Ar y cyfan, maent yn deall y materion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ac yn gallu ymddwyn fel adfocatiaid ar eu rhan gyda gweithwyr proffesiynol eraill. Mae gwaith gyda phobl ifanc hŷn yn aml yn fwy llwyddiannus ar sail un i un.

Yn yr achosion gorau, mae anghenion pobl ifanc wrth wraidd y mentrau. Anogir pobl ifanc i anelu'n uchel ac addasir y gwaith yn ôl eu hanghenion unigol. Yn aml, mae ganddynt becynnau dysgu unigol a gynlluniwyd yn dda. Mae gweithwyr yn canolbwyntio ar eu cynorthwyo i sicrhau'r medrau y bydd eu hangen arnynt i symud ymlaen a gweithio i ddileu'r rhwystrau sylweddol sy'n atal rhai pobl ifanc rhag symud ymlaen.

Mewn llawer o achosion, mae staff yn neilltuo cyfanswm sylweddol o'u hamser eu hunain ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau gwaith arferol.

Cyfeirio

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd wedi datblygu systemau cadarn ar gyfer cyfeirio pobl ifanc i'r prosiectau, yn enwedig y rhai cyn-16 oed. Mae'r asiantaethau sy'n gysylltiedig yn amrywio o ardal i ardal. Ceir perthynas dda gyda swyddogion lles addysgol, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig a staff ysgol allweddol. Fodd bynnag, ni ddewisir y rhai mwyaf eu hangen bob amser. Nid yw trefniadau rheoli yn aml yn rhoi cyfle i staff y Fenter Mynediad Ieuenctid gymryd rhan yn y broses gyfeirio.

Caiff unigolion eu cyfeirio i brosiectau ôl-16 o amrywiaeth o ffynonellau ac nid yw hyn wedi'i gynllunio mor dda. Mae'n dibynnu ar raddau gwybodaeth asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc neu ar bobl ifanc yn cyfeirio eu hunain. Anogir rhai pobl ifanc i fynychu trwy gyfrwng cyswllt a wneir ar brosiectau ymestyn allan a phrosiectau ieuenctid ar wahân, ond nid yw'r arfer o ddefnyddio cysylltiadau ac arbenigedd gwasanaethau ieuenctid yn ddigon cyffredin. Ar y cyfan, mae'r berthynas rhwng cwmnïau Gyrfaoedd yn dda ond ceir diffyg cyfeiriadau o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, Timau Troseddu Ieuenctid a'r heddlu.

Perthnasedd

Un o nodweddion rhagorol y Fenter Mynediad Ieuenctid yw llwyddiant y berthynas gyda phobl ifanc ym mhrosiectau cyn-16 ac ôl-16. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i agwedd anawdurdodus ac anfeirniadol ymysg gweithwyr ieuenctid a nifer uchel y gweithwyr o'i gymharu â'r bobl ifanc, weithiau un i un. Mae'r perthnasau hyn yn arwain at:

- gymorth i bobl ifanc ddeall y materion y maent yn eu hwynebu;
- cymorth wrth ystyried ac addasu eu hymddygiad;
- cynnydd yng nghymhelliant, hunan-hyder a hunan-barch pobl ifanc;
- cymorth da wrth helpu pobl ifanc i drefnu a gwella'u gwaith;
- cymorth unigol gyda llythrennedd a rhifedd;

- cyfraddau cyflawniad a phresenoldeb gwell;
- mentora a chymorth addas gyda materion personol; ac
- annog pobl ifanc i ddelio â sefyllfaoedd a thasgau a ystyrid yn anodd ganddynt yn flaenorol.

Mae'r berthynas a ddatblygir rhwng gweithwyr a phobl ifanc weithiau yn cael ei throsglwyddo i'r gweithle lle mae goruchwylio lleoliadau yn cael ei wneud mewn ffordd sensitif ac addas. Ar y cyfan, mae pobl ifanc yn cael ymateb rheolaidd am eu perfformiad, ym mhob gosodiad, sy'n eu hannog i ddyfalbarhau â'r dasg. Gall defnyddio mentoriaid fod yn gam defnyddiol iawn.

Defnyddio mentoriaid yn dda

Datblygwyd cynllun effeithiol mewn un ysgol gyfun. Mae wedi tyfu'n gynnar o weithgaredd "cryno" i fod yn rhan o Fenter Mynediad Ieuenctid yr ardal. Mae oedolion o ddiwydiannau lleol yn ymweld â phobl ifanc yn yr ysgol oddeutu unwaith y tymor ac mae gan bob disgybl fentor yng nghyfnod allweddol 4.

Mae pobl ifanc yn ymateb yn dda i'w mentoriaid oherwydd ystyrir eu bod yn llwyddiannus yn y byd go iawn. Adroddir bod y bobl ifanc yn meithrin eu hyder, mae'r canlyniadau TGAU wedi gwella ac mae dros 60% o fyfyrwyr Blwyddyn 10/11 yn yr ysgol yn mynychu 100% o'r amser. Mae rhai yn cadw mewn cysylltiad â'r mentoriaid ar ôl gorffen Blwyddyn 11.

Mewn ardal arall, mae "Swyddogion Prosiect" yn fentoriaid i bobl ifanc. Maent yn datblygu perthynas dda ac yn ymrwymo i gytundebau rhwng y cartref a'r ysgol sy'n cynnwys y rhieni. Mae geiriau un rhiant yn dangos bod ymdrechion y mentoriaid wedi newid agweddau: "Dyma'r tro cyntaf y mae unrhyw un wedi dangos diddordeb yn fy mhlentyn."

Pobl ifanc gydag ymddygiad troseddol

Mae rhai pobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Fenter Mynediad Ienenctid yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, wedi bod yn troseddu yn y gorffennol, neu maent mewn perygl difrifol o droseddu. Fe'u hanogir i gwestiynu eu hagweddau ac mae gweithwyr Mynediad Ieuenctid wedi ymrwymo i ddadwneud agweddau negyddol a pherswadio'r bobl ifanc fwyaf anodd ac ystyfnig hyd yn oed o werth addysg a hyfforddiant. Mae lledaenu'r arfer da hwn yn yr ysgol yn dechrau arwain at ganlyniadau mewn rhai ardaloedd, ond ni chofnodir y cynnydd a wneir gan rai unigolion yn aml.

Mae prosiectau gwaith ieuenctid all ymestyn a neilltuol yn dechrau cyrraedd troseddwyr mewn rhai ardaloedd ond nid ydynt wedi datblygu fawr eto. Ceir tystiolaeth anecdotaidd o ganlyniadau cadarnhaol ond ni cheir sôn am lwyddiant ac eithrio mewn un neu ddau achos unigol.
Pan fo tystiolaeth bod ymddygiad y bobl ifanc sy'n cynnig yr her fwyaf, yn newid, ymgorfforwyd dull gweithredu partneriaeth wrth i fwy nag un asiantaeth ymyrryd. Er bod enghreifftiau o Wasanaethau Cymdeithasol, Ieuenctid a Thimau Troseddu Ieuenctid yn cyfeirio pobl ifanc at brosiectau, nid yw'r berthynas â'r asiantaethau hyn wedi'i datblygu ddigon yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae cyfle sylweddol i ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda'r heddlu.

5. Rheoli mentrau lleol

Ansawdd rheolaeth a chynllunio

Er bod rheolaeth ar lefel prosiectau lleol yn dda ar y cyfan, nid yw'r mwyafrif o ardaloedd yr ymwelwyd â nhw wedi sicrhau trefniadau cydweithio canolog effeithiol eto. Er bod gan nifer ddealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion y Fenter Mynediad Ieuenctid, nid oes ganddynt y weledigaeth strategol. Mae hwn yn ddiffyg pwysig. Mae'n amharu ar gynllunio strategol, cyfleoedd cyfartal i bob unigolyn ifanc, mynediad cyfartal i wybodaeth ac mae'n llesteirio'r arfer o rannu a lledaenu arfer da. Lle mae rhai ysgolion heb gymryd rhan yn y Fenter Mynediad Ieuenctid, nid yw pobl ifanc anniddig ynysig sydd mewn perygl, yn cael yr un cyfle i gael mynediad i'r ddarpariaeth.

Mewn rhai ardaloedd, mae cydgysylltydd yn rheoli grwpiau llywio sy'n cynnwys y partneriaid, yn llwyddiannus, ond ni chaiff swyddogaethau eu diffinio'n eglur bob amser. Mae'r awdurdodau sydd wedi penodi cydlynwyr cynhwysiant cymdeithasol yn gwneud cynnydd nodedig wrth gyfnerthu'r broses o reoli gweithgareddau'r Fenter Mynediad Ieuenctid, ond mewn ardaloedd eraill, ceir diffyg cydgysylltu o fewn yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd yn aml. Nid oes llawer o dystiolaeth o gysylltu cynlluniau gweithredu gyda chynlluniau eraill awdurdodau lleol ac nid yw rhai adrannau'n manteisio ar y cyfle sydd ar gael, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol ac mewn rhai achosion, y gwasanaeth ieuenctid, i wneud cyfraniad gwerthfawr. Ar y cyfan, mae partneriaethau yn nodwedd gadarnhaol o'r Fenter Mynediad Ieuenctid, ond mae peth gelyniaeth anghynhyrchiol yn bodoli rhwng rhai adrannau ac asiantaethau o hyd.

Nid yw pawb sy'n ymwneud â darparu cynlluniau yn ymwybodol o'r strategaeth gyffredinol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at ddull gweithredu anghyson o fewn ardal gyfan. Yn aml, nid yw staff mewn ysgolion a cholegau'n gysylltiedig â'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth ac ni ddatblygwyd y syniad o gynnwys pobl ifanc yn y prosesau hyn eto.

Mewn un awdurdod, mae cytundebau lefel gwasanaethau sy'n mesur elfennau penodol o'r ddarpariaeth, bellach ar waith gan amrywiaeth o ddarparwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn eang ac mewn nifer o ardaloedd, mae partneriaethau, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol, yn wan.

Er bod rhai prosiectau yn gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill yn y gymuned leol ar lefel weithrediadol, ni roddwyd rhyw lawer o ystyriaeth i ddatblygu prosiectau yng nghyd-destun ehangach gwaith i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Ni roddir llawer o arweiniad i weithwyr sy'n delio â phobl ifanc yn uniongyrchol ynghylch sut i weithio gyda darparwyr gwasanaethau eraill megis iechyd neu wasanaethau cymdeithasol neu i integreiddio prosiectau gyda mesurau lleol i hyrwyddo adfywio cymunedol. Dibynnir i raddau helaeth ar gysylltiadau personol sy'n codi ar hap a damwain.

6. Cwricwlwm

Cynllunio a hawliau

Mae pobl ifanc sy'n rhan o brosiectau'r Fenter Mynediad Ieuenctid yn gallu manteisio ar gwricwlwm cyfyngedig nad yw bob amser yn gytbwys ac yn heriol. Weithiau, mae'r cynnwys academaidd lawer yn is na lefel gallu'r bobl ifanc sy'n gallu ymgymryd â gwaith cryn dipyn yn fwy heriol. Yn aml, nid yw'r deunyddiau yn cynnwys digon o gymhelliant neu caiff y bobl ifanc waith y maent eisoes wedi'i wneud mewn lleoliadau eraill.

Rhoddir pwyslais ar raglenni cymell masnachol a ystyrir yn frwdfrydig gan staff a rhai pobl ifanc, ond mae ansawdd y darparu'n amrywio. Yn aml, ni wneir llawer o gynnydd wrth arfarnu dealltwriaeth pobl ifanc o'r materion sy'n gysylltiedig neu unrhyw ddadansoddiad go iawn o'r effaith ar gymhelliant yn y dyfodol. Mae gan nifer o brosiectau drefniadau i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored neu ymarferion eraill sy'n helpu i ddatblygu eu cymeriad a hunan-ddibyniaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn llwyddo i ffurfio perthynas dda mewn grwpiau ac wrth wella agweddau pobl ifanc.

Ni cheir llawer o gyswllt rhwng prosiectau a rheolwyr ysgol ynghylch sut y medrir gweithredu'r cwricwlwm mewn ffordd ddigon hyblyg i alluogi pobl ifanc ar brosiectau i ail-integreiddio i ysgolion prif ffrwd. Gosodir targedau ar gyfer unigolion ond mae diffyg monitro neu ddadansoddi gofalus o hyd i helpu wrth gynllunio yn y dyfodol naill ai i ddatblygu cynnydd yr unigolyn neu i ddatblygu a gwella prosiectau. Mewn nifer o achosion, ni throsglwyddir digon o wybodaeth am gefndir pobl ifanc i'r Fenter Mynediad Ieuenctid a phan fo ar gael, ni chaiff ei ddefnyddio'n effeithiol bob amser. Yn arbennig, ni wneir defnydd da bob amser o wybodaeth am ddysgu ymlaen llaw ac ni chaiff cyflawniadau pobl ifanc oddi ar y safle neu mewn lleoliadau gwaith ieuenctid eu bwydo'n ôl i'r ysgol bob amser. Mae hwn yn ddiffyg pwysig.

Medrau sylfaenol a medrau allweddol

Mae lefelau llythrennedd gwael yn aml, ond nid bob amser, yn cyfrannu at bobl ifanc cyn-16 ac ôl-16 i deimol'n anfodlon. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, rhoddir pwyslais addas ar fedrau sylfaenol a medrau allweddol. Defnyddir deunyddiau'r Asiantaeth Medrau Sylfaenol yn effeithiol a chynigir ystod o ddewisiadau o ran cymhwyster. Mae pobl ifanc yn aml yn cymryd cyfrifoldeb am wella'u perfformiad, ond ni roddir hyfforddiant penodol i diwtoriaid ym maes datblygu llythrennedd a rhifogrwydd bob amser. O bryd i'w gilydd, nid yw tiwtoriaid yn cymryd cyfrif o fedrau llythrennedd gwael wrth ffurfio'u disgwyliadau.

Ceir enghreifftiau o brosiectau creadigol i annog llythrennedd ond mae'r rhain yn canolbwyntio ar y rhai sy'n tangyflawni yn hytrach na'r rhai y torrwyd eu cyswllt â dysgu.

Mae cyfle i bobl ifanc ddilyn cyrsiau medrau allweddol, ond cyfyngir y rhain i lythrennedd, rhifedd a TGCh fel arfer. Ni cheir llawer o gyfnerthiad rhwng cydrannau'r cwricwlwm medrau allweddol ac ni chynigir llawer o weithgareddau cefnogol. Ni roddir digon o bwyslais ar fedrau allweddol cydweithio gydag eraill a datrys problemau, sy'n hynod o addas yng nghyd-destun profiadau a gweithgareddau'r Fenter Mynediad Ieuenctid.

Enghraifft o brosiect creadigol i annog llythrennedd

Darparwyd gweithdai gan fardd o Gaerdydd mewn ysgol gyfun mewn ardal arall. Roedd gan y bardd brofiad o weithio gyda phobl ifanc y torrwyd eu cyswllt â byd addysg ac yn yr achos hwn, targedwyd disgyblion Blwyddyn 9, trwy iddynt fynychu pedwar sesiwn hanner diwrnod o hyd ac un sesiwn diwrnod o hyd dros gyfnod o dair wythnos. Nodwyd y bobl ifanc fel rhai oedd yn agored i niwed y diwylliant nad yw gwaith academaidd yn "macho", ac roedd y prosiect yn ceisio'u hannog i fynegi eu hunain trwy ysgrifennu a pherfformio creadigol. Roedd y gweithgareddau'n amrywio o ymarferion iaith a sillafu i ysgrifennu personol estynedig, i farddoniaeth.

Ar ôl y prosiect:

- gwelwyd gwelliant yn eu hagwedd a'u gwaith; a
- gwelwyd rhai, yn enwedig y bechgyn, yn sicrhau gwell canlyniadau diwedd cyfnod allweddol 3 na'r disgwyl.

Profiad gwaith

Gall lleoliadau gwaith fod yn nodwedd dda o nifer o brosiectau'r Fenter Mynediad Ieuenctid, ac mae pobl ifanc yn elwa o brofiadau ymarferol mewn amgylchedd i oedolion. Mae cydgysylltwyr a darparwyr hyfforddiant yn cymryd gofal mawr i sicrhau lleoliadau sy'n addas i ddyheadau unigol pobl ifanc. Cyflawnir hyn yn aml er gwaethaf diffyg lleoliadau amrywiol, yn enwedig ar gyfer y grŵp cyn-16 a ystyrir yn aml yn rhy anaeddfed i ddefnyddio profiad yn yr amgylchedd gwaith yn effeithiol ymysg cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant. Mae hyn wedi arwain at "arbed" adnoddau gwerthfawr ar gyfer pobl ifanc hŷn. Mae'n anodd hefyd i bobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ar ystadau lle mae'r cyfleusterau cludiant i gyrraedd lleoliadau yn wael.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r lleoliadau'n rhai lleol ac yn rhan o'r gymuned. Mewn nifer o ardaloedd, ni wneir digon o ymdrech i ehangu portffolio lleoliadau yn lleol neu wrth ddatblygu perthynas gydag amrywiaeth o gyflogwyr lleol.

Yn aml, ni chofnodir profiadau yn ystod lleoliadau gwaith ac ni roddir fawr o ystyriaeth i'r hyn a gyflawnir. O ganlyniad, ni werthfawrogir y manteision yn llawn. Nid yw cyflogwyr bob amser yn llwyr ymwybodol o gyd-destun lleoliad pobl ifanc er eu bod yn aml yn canmol y bobl ifanc sy'n dod ar leoliad gyda nhw ac yn cyfrannu cyfanswm sylweddol o ddarpariaeth mentora a hyfforddi "gwirfoddol" atodol.

Mae lleoliadau yn aml yn adlewyrchu ystrydebau yn ymwneud â rhyw, ond ceir rhai eithriadau nodedig. Mae hynny yn rhannol oherwydd diffyg lleoliadau a'r gwaith posibl o ganlyniad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a hefyd gorwelion cyfyngedig y bobl ifanc eu hunain. Nid yw staff y prosiectau yn herio'r sefyllfa yn ddigonol bob amser.

Mae lleoliad mewn darpariaeth gymunedol yn helpu unigolyn ifanc i symud ymlaen i addysg hyfforddiant pellach

Mewn un ardal, mae myfyrwraig Blwyddyn 11 ar leoliad llawn amser fel rhywun i “helpu” yn nosbarth derbyn ysgol gynradd leol. Hon yw’r ysgol a fynychodd hi pan oedd yn blentyn. Fe’i croesawyd ac mae’n cael cefnogaeth da gan staff yr ysgol sy’n ei chanmol yn fawr. Mae Swyddog Cynhwysiant ei hysgol yn ymweld yn rheolaidd er mwyn cefnogi ei gwaith medrau allweddol. Mae’r fyfyrwraig yn mwynhau ei lleoliad ac mae wedi mynychu’n rheolaidd. Mae’r canlyniadau i’r unigolyn ifanc hwn yn gadarnhaol iawn:

- mae hi’n teimlo’n gyffyrddus yn ei swyddogaeth ac yn dod ymlaen yn dda gyda’r staff a’r plant - “Rwy’n teimlo fel oedolyn.”;
- mae ei hyder a’i medrau rhyngbersonol wedi gwella’n sylweddol; ac
- mae hi’n datblygu ei medrau artistig a’i medrau trefnu wrth gyfrannu yng ngweithgareddau’r dosbarth.

Mae’n gobeithio dechrau cwrs CGCC gofal plant yn ei choleg lleol a chaiff ei chefnogi yn hyn o beth gan ei darparwr hyfforddiant lleol.

7. Y berthynas gydag ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant

Mae mwyafrif yr ardaloedd llywodraeth leol wedi rhoi mwy o bwyslais ar brosiectau ar gyfer y grŵp cyn-16. Mae'r rhain yn aml yn dangos y llwyddiant mwyaf pan fo'r rhaglen a'r rhai sy'n cymryd rhan yn parhau i gael eu hintegreiddio o fewn yr ysgol. Mae gweithgareddau'r Fenter Mynediad Ieuenctid yn aml yn ychwanegu gwerth i'r ysgol gyfan yn ogystal ag i'r bobl ifanc penodol.

Agweddau

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gyswllt â'r Fenter Mynediad Ieuenctid. Mewn eraill, mae'n fwy darniog ac ni ddatblygwyd y cysylltiadau'n ddigonol. Mae gan nifer o ysgolion ddealltwriaeth eglur bellach o'r prosiectau, a'u swyddogaeth yn y broses ac mae rhai eisoes yn cysylltu'r Fenter Mynediad Ieuenctid â'u cynlluniau gwella ysgol. Mae rhai ysgolion yn dal yn methu â gweld manteision gweithgareddau'r Fenter Mynediad Ieuenctid.

Mae'r fenter wedi gwella'r ddealltwriaeth o bobl ifanc anniddig a gwelwyd rhai newidiadau yn agwedd staff mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd lle mae cyswllt agos rhwng Gweithgarwch Mynediad Ieuenctid â'r Rhaglen Bartneriaeth rhwng Ysgolion a Gwaith Ieuenctid. Mae ychydig hyfforddiant ar y cyd yn dechrau digwydd, wrth i weithwyr o wahanol gefndiroedd proffesiynol rannu strategaethau a phrofiadau.

Targedu sylw at unigolion yn gwella agweddau tuag at ddysgu

Mewn un enghraifft, mae gweithiwr Mynediad Ieuenctid yn gweithio mewn ysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae ganddi gefndir ym myd addysg ac mae'n cynnig cyfweliadau rhwng hanner awr ac awr o hyd gydag oddeutu 14 o bobl ifanc ym Mlwyddyn 10 ac 11. Mae wedi cyflwyno ychydig o waith grŵp hefyd lle bo anghenion cyffredin. Mae diffyg hunan-barch gan y bobl ifanc a ddewiswyd ac nid oes ganddynt fedrau cymdeithasol sylfaenol. Nid y rhain yw'r rhai gyda'r ymddygiad sy'n cynnig yr her fwyaf oherwydd caiff y rhai hynny eu targedu gan brosiect arall. Mae'r gwaith yn arwain at unedau a achredwyd gan y RhCA. Mae'r gweithiwr yn cadw ffeiliau trefnus gan gynnwys presenoldeb a'r canlyniadau a'r targedau a osodir ar gyfer pob sesiwn. Er ei fod yn gynllun sydd newydd gychwyn, gwelir eisoes arwyddion ei fod yn gwella ymddygiad ac agwedd rhai o'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig, sy'n gweithio'n dda gyda'r gweithiwr ac yn gwerthfawrogi'r cymorth.

Cynlluniwyd yr amserlenni yn ofalus er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli gwersi pynciau craidd neu'r un wers bob wythnos. Mae'r pennaeth a'r penaethiaid blwyddyn yn werthfawrogol iawn ac yn gefnogol o'r prosiect ac yn dadansoddi ei effaith ar bobl ifanc a'r ysgol.

Mae nifer fach o ysgolion yn ystyried y Fenter Mynediad Ieuenctid yn rhywbeth llai cadarnhaol. Fe'i hystyriant yn unig fel ffordd o symud disgyblion y mae eu hymddygiad yn tarfu, naill ai i ddarpariaeth oddi ar y safle neu i goleg, er mwyn galluogi addysgu mwy effeithiol gyda'r disgyblion sy'n weddill. Mae nifer fodd bynnag yn dechrau gwerthfawrogi gwahanol ddulliau gweithredu wrth weithio gyda phobl ifanc gan ystyried strategaethau amgen ar gyfer pobl ifanc sydd ar ôl yn yr ysgol.

Nid oes darpariaeth gydlynol yn bodoli ar gyfer disgyblion dosbarth chwech sydd mewn perygl o adael cyn pryd. Er bod y niferoedd yn isel, nid yw'r myfyrwyr hyn yn cael y cyfle i fanteisio ar y cymorth ychwanegol a gynigir gan y Fenter Mynediad Ieuenctid.

Mae gwaith ardderchog yn cael ei wneud mewn partneriaeth â cholegau, sy'n cynnig cyrsiau rhan-amser, ac mewn rhai achosion, cyrsiau llawn-amser i bobl ifanc. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at gydweithredu a chynllunio mewn Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant. Mae ysgolion unigol yn defnyddio arian CAGC wedi'i ddatganoli i brynu lleoedd hyfforddiant CGC ar gyfer ymgeiswyr y Fenter Mynediad Ieuenctid. Mae rhai cydweithwyr o hyd yn methu â gweld manteision cynnwys myfyrwyr iau neu grŵp sydd wedi dangos ymddygiad heriol yn y gorffennol. Mae ganddynt bryderon am eu proffil cyhoeddus ac ni hoffent gael eu hystyried yn rhyw fath o wasanaeth "achub". Maent yn fwy tebygol o dderbyn myfyrwyr unigol i lenwi unrhyw fylchau ar gyrsiau sy'n cael eu cynnig yn barod.

Mewn nifer o ardaloedd, ceir perthynas dda gyda darparwyr hyfforddiant preifat sy'n cynnig gweithgareddau a hyfforddiant o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae'r dewis o ran darparwr a'r dewis sydd ar gael i bobl ifanc yn aml yn gyfyngedig. Mae rhai yn darparu hyfforddiant TG da a chymorth ar gyfer lleoliadau gwaith, ond ym mhob achos, ni roddir digon o bwyslais ar sicrhau medrau llythrennedd a rhifedd.

Ail-integreiddio

Er bod ail-integreiddio i ysgolion yn un o nodau'r Fenter Mynediad Ieuenctid, prin y bu hyn yn opsiwn llwyddiannus, yn enwedig lle ystyrir prosiectau yn elfennau ar wahân i weithgareddau arferol ysgol. Mewn nifer o achosion, ni weddnewidiwyd agweddau negyddol tuag at fywyd ysgol. Roedd un prosiect yr ymwelwyd ag ef yn ddiweddar wedi cyflwyno'r syniad o ail-integreiddio rhai pobl ifanc am un diwrnod yr wythnos. Nid oedd y bobl ifanc yn hapus iawn â hyn er bod rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn gofyn am ganiatâd i adael prosiectau oddi ar y safle er mwyn dychwelyd i'r ysgol. Mewn un achos arbennig, ysgogwyd hyn yn fwy gan yr angen i fod ymysg ffrindiau yn hytrach nag ymrwymiad go iawn i fanteisio ar amgylchedd yr ysgol. Yn yr achos hwn, ystyriwyd y prosiect yn gosb yn hytrach na phrofiad cadarnhaol.

Ymddengys bod prosiectau sydd wedi'u hintegreiddio'n fwy â bywyd ysgol, yn fwy llwyddiannus wrth newid agwedd pobl ifanc tuag at y drefn mewn ysgolion, athrawon a disgyblion eraill. Maent yn arwain at newidiadau o fewn yr ysgol ei hun hefyd.

8. Rheoli adnoddau

Ariannu

Roedd nodau gwreiddiol y Fenter Mynediad Ieuenctid yn rhagweld y byddai prosiectau yn medru denu arian o ffynonellau eraill, yn enwedig Arian Cymdeithasol, Ewropeaidd ac arian o Gronfeydd Datblygu Strategol. Nid yw'r Fenter Mynediad Ieuenctid wedi llwyddo hyd yn hyn i ddenu ffynonellau ariannu eraill i gefnogi neu gwella prosiectau. Ni roddwyd digon o sylw i chwilio am arian "newydd" neu archwilio sut y gallai gwahanol sectorau gyfuno adnoddau ariannol.

Nid yw cronfeydd y Gronfa Mynediad Ieuenctid wedi cael eu targedu yn unol ag angen wedi'i flaenoriaethu mewn awdurdod lleol bob amser. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg trosolwg strategol, gwybodaeth ystadegol annigonol a threfniadau anghyson i ledaenu nodau'r fenter. Mewn ychydig o ardaloedd, defnyddir nawdd i gefnogi prosiectau gwahanol sy'n ddigyswllt a heb ymdeimlad o bwrpas. Camddefnyddir nawdd hefyd i gefnogi rhai sy'n tangyflawni yn yr ysgol, ond nad ydynt mewn gwir berygl o anfodlonrwydd.

Dim ond mewn rhai ardaloedd y targedir cyfran sylweddol o arian ar gyfer y ddarpariaeth ôl-16. Mae hyn wedi arwain at garfan o bobl ifanc yn colli cyfle i gael addysg a hyfforddiant am yr ail waith. Mae hwn yn ddiffyg difrifol yn y trefniadau cyfredol.

Mae'n aneglur o hyd sut y mae arian y Fenter Mynediad Ieuenctid yn CAGC, ac a drosglwyddir i ysgolion, wedi gwella lledaenu arfer da neu wedi'i ddefnyddio i ysgogi newid go iawn mewn ysgolion. Defnyddiwyd yr arian mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae rhai awdurdodau lleol yn buddsoddi swm sylweddol mewn pecynnau hyfforddi ysgogol heb arfarnu fawr iawn os o gwbl.

Staffio

Ar y cyfan, mae'r lefelau staffio ar gyfer prosiectau yn dda, gan fod y rhan fwyaf o ardaloedd wedi cyfeirio'r rhan fwyaf o'r arian sydd ar gael i gydgysylltwyr, tiwtoriaid a staff cefnogol. Mae problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i natur ansicr yr ariannu.

Ar y cyfan, mae staff Mynediad Ieuenctid yn gymwys mewn addysgu, gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu arweiniad gyrfaoedd gan ddangos ymrwymiad eithriadol i'w gwaith. Maent yn dangos medrau sylweddol wrth gyfathrebu â phobl ifanc.

Mae rhai ardaloedd wedi buddsoddi arian sylweddol mewn hyfforddi staff. Mae gan un ardal raglen ddatblygu staff aml-asiantaeth gynhwysfawr ar gyfer pob partner yn y Fenter Mynediad Ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant mewn ysgolion. Mewn ardal arall, mae pob aelod o dîm y Fenter Mynediad Ieuenctid wedi cael hyfforddiant ac achrediad ar gyfer gwaith ieuenctid neilltuol. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r meysydd canlynol ymhellach:

- darparu llythrennedd a rhifedd;
- gweithio gyda phobl ifanc sydd â thrafferthion dysgu;
- gosod targedau;
- cofnodi a mesur datblygiad personol;
- sicrhau dilyniant i bobl ifanc; a
- mapio llwybrau datblygu.

Nid oes llawer o ardaloedd yn cadw cronfa ddata ganolog o fedrau a hyfforddiant staff ac felly, nid ydynt yn medru manteisio digon ar yr arbenigedd sydd ar gael.

Adeiladau ac offer

Er bod ansawdd yr adeiladau yn amrywio'n fawr, defnyddir yr hyn sydd ar gael mewn ffordd greadigol yn aml. Mae rhai ysgolion wedi neilltuo ystafelloedd ar gyfer gweithwyr y Fenter Mynediad Ieuenctid, a chynhelir nifer o brosiectau mewn canolfannau ieuenctid, canolfannau cymunedol ac adeiladu cymdeithasau gwirfoddol. Mae hyn yn cynorthwyo gweithio mewn partneriaeth ac yn arwain at gymorth ychwanegol gan staff eraill sy'n gweithio yn y lleoliadau hynny. Mewn un ardal, mae prosiect fferm gwirfoddol yn cynnig amgylchedd cyffrous gydag adnoddau da, er y byddai mynediad yn broblem os na fyddai cludiant yn cael ei ddarparu. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd brosiectau gweithgareddau yn yr awyr agored a defnyddir adeiladau preswyl hefyd.

Lleolir rhai prosiectau mewn adeiladau gwael ac annerbyniol lle mae'r amgylchedd yn ddiflas ac nid yw'n ysgogi'r staff a'r bobl ifanc. Yn aml, defnyddir yr adeiladau ar ôl i rywun arall eu gwaredu neu mae'r prosiect yn dioddef oherwydd ei fod yn gorfod gwneud y tro ag ystafell sbâr nad oes unrhyw un arall yn ei defnyddio. Gall hyn fod o ganlyniad i ddiffyg ariannu parhaol, ond nid yw'n cyfrannu llawer at feithrin hunan-barch y bobl ifanc sydd eisoes yn teimlo'n siomedig â darpariaeth y brif ffrwd efallai.

Ar y cyfan, mae offer TG ar gael, er bod nifer y cyfrifiaduron ac ansawdd yr offer yn amrywio. Mae un ardal arbennig yn cynnig adnoddau cyfrifiaduron o safon uchel trwy gyfrwng cyfleuster hyfforddi ledled y sir. Ni ddefnyddir digon o'r ddarpariaeth gliniaduron, a fyddai'n sicrhau bod mwy o bobl yn medru manteisio ar dechnoleg fodern.

Mewn un ardal lle mae adnoddau TG yn wael, gwnaethpwyd ymdrech i gynhyrchu llawlyfrau a llyfrau gwaith ardderchog i bobl ifanc a staff. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddeunyddiau yn llwyddo i ddenu pobl ifanc. Mae'r offer a'r adnoddau i ehangu'r cwricwlwm yn aml yn wael.

9. Rheoli ansawdd

Mae'r trefniadau i reoli ansawdd yn gyffredinol wan.

Monitro a gwerthuso

Mae'r broses o fonitro ac arfarnu prosiectau yn amrywio'n fawr o ardal i ardal ac mae'n bryder difrifol. Mae'r broses o osod targedau cychwynnol ar brosiectau yn wan. Nid oes gan nifer system i werthuso darpariaeth y Fenter Mynediad Ieuenctid yn ei chyfanrwydd, nag i fonitro'r broses o weithredu eu cynlluniau, yn enwedig o ran gofynion CAGC. Mae diffyg difrifol o ddata dibynadwy ac nid yw rheolwyr strategol yn dadansoddi canlyniadau wrth lunio'u cynlluniau gweithredu ar gyfer y Fenter Mynediad Ieuenctid. Nid oes llawer o ardaloedd wedi ystyried y targedau a bennwyd yng *Nghynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Mawrth 1999,* (ETAP). Pan wneir gwaith monitro yn erbyn targedau, mae'r cynnydd yn aml yn gymhedrol.

Pan wneir gwaith monitro ac arfarnu da, fe'i gwelir mewn prosiectau unigol neu ar gynnydd unigolion ifanc yn hytrach na throsolwg o raglenni ardaloedd cyfan. Ar y cyfan, mae'r broses olrhain yn wael.

Mae'r broses o fonitro lleoliadau gwaith yn aml yn drylwyr, ond ni chedwir llawer o gofnodion o'r cyflawniadau neu'r profiadau a geir. Ni ddatblygir llawer o systemau ffurfiol i fonitro ansawdd darpariaeth darparwyr allanol. Mae'r trefniadau cofnodi a monitro gwaith all ymestyn a neilltuol ar gyfer prosiectau ôl-16 yn wael mewn nifer o ardaloedd.

Gosodir targedau ar gyfer pobl ifanc, ond nid ydynt bob amser yn cynnig digon o her, ac mae diffyg asesu effaith y Fenter Mynediad Ieuenctid ar bobl ifanc pan fyddant yn gadael prosiectau. Nid oes unrhyw fecanweithiau mewn grym i ddilyn datblygiad pobl ifanc sydd ag anghenion arbennig neu anabledd neu grwpiau arbennig megis plant sy'n derbyn gofal neu'r rhai ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae rhai ardaloedd wedi ceisio monitro cyfle cyfartal, ond ni cheir tystiolaeth gyson o hyn.

Mae rhai ardaloedd yn datblygu systemau i gasglu data, ond ni ddefnyddir digon o TGCh i gofnodi, olrhain, monitro a dadansoddi. Defnyddir holiaduron yn dda, ond nid yw'r arfer o ddefnyddio tystiolaeth fideo a thystiolaeth ffotograffig, er y'i defnyddir o bryd i'w gilydd i gofnodi ac arfarnu canlyniadau, yn gyffredin. Mae trefniadau monitro presenoldeb fel arfer yn dda, ond ni cheir digon o dystiolaeth o gynnydd cyffredinol pobl ifanc a phrin yw'r mecanweithiau neu'r cyfleoedd i gyfleu'r ymateb i bartneriaid ac asiantaethau eraill.

Mae asiantaethau yn dal i fod yn anfodlon i rannu gwybodaeth a phan welir parodrwydd i wneud hyn, ni chyflawnir hyn mewn ffordd effeithlon. Nid oedd unrhyw brotocolau i rannu gwybodaeth mewn grym ar adeg yr ymweliadau, nac unrhyw fecanweithiau i rannu gwybodaeth mewn gwahanol ardaloedd. Ni ddefnyddir llawer o waith hunan-arfarnu, anaml iawn y defnyddir asesiad gan gydweithwyr, ac nid yw cydweithredu rhwng ardaloedd cyfagos ar drefniadau arfarnu, wedi'u datblygu ddigon.

Pobl ifanc sy'n derbyn gofal

Mae'n hysbys bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol mewn perygl arbennig o dangyflawni. Cawsant eu nodi'n grŵp targed allweddol ar gyfer y Fenter Mynediad Ieuenctid. Dangoswyd bod dros 75% o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gadael addysg ffurfiol heb unrhyw gymwysterau. (Cyf: *Darpariaeth Addysgiadol i Blant sy'n Derbyn Gofal.) Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn)* Pennodd ETAP darged y dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i sicrhau y dylai 80% o blant sy'n derbyn gofal adael gydag o leiaf un TGAU neu gymhwyster cyfatebol erbyn 2004. Er bod y bobl ifanc hyn yn rhan o garfan y Fenter Mynediad Ieuenctid mewn rhai ardaloedd, ni chynhyrchir unrhyw ddogfennau systematig yn ymwneud â hyn. Mae un awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn eu cynnwys yn rhai o'r Mentrau Mynediad Ieuenctid ond nid oes system gan yr awdurdod hwnnw i nodi anghenion neu olrhain cynnydd. Felly, mae'n amhosibl gwybod a yw'r Fenter Mynediad Ieuenctid yn helpu'r cynnydd i gyflawni'r targedau hyn os nad oes unrhyw wybodaeth arwahanol ynghylch olrhain ar gael ar gyfer y grŵp hwn.

Ar y cyfan, nid oes digon o dystiolaeth ar gael o ddata neu fonitro nac arfarnu lleol cadarn, i alluogi rheoli ansawdd y Fenter Mynediad Ieuenctid yn effeithiol.

10. Argymhellion

Er mwyn datblygu'r llwyddiannau a sicrhawyd eisoes, a delio â'r diffygion a nodwyd, cyflwynir yr argymhellion canlynol i bartneriaethau awdurdodau lleol.

Cyflawniadau pobl ifanc:

- rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau llwybrau dilyniant i bobl ifanc a sicrhau y cofnodir cynnydd.

Ansawdd y gwaith gyda phobl ifanc:

- sicrhau bod addysgu llythrennedd a rhifedd yn cael blaenoriaeth uchel mewn prosiectau, a bod y staff yn cael eu hyfforddi mewn darpariaeth arbenigol; a
- phan fo hynny'n addas, hwyluso'r broses o ddarparu holl gydrannau'r rhaglen medrau allweddol.

Rheoli mentrau lleol:

- gwella diffyg arweinyddiaeth a rheolaeth strategol prosiectau'r Fenter Mynediad Ieuenctid;
- sicrhau y caiff grwpiau blaenoriaeth allweddol eu cynrychioli'n dda ar brosiectau'r Fenter Mynediad Ieuenctid;
- casglu, cofnodi a dadansoddi data addas ynghylch prosiectau a defnyddio hyn wrth gynllunio a gosod targedau yn y dyfodol; ac
- ymestyn cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt yn medru manteisio ar brosiectau trwy annog pob ysgol i gymryd rhan yn y rhaglen.

Cwricwlwm:

- gwella'r cwricwlwm sydd ar gael i bobl ifanc ar brosiectau a sicrhau bod y dysgu yn cynnig her ac ysgogiad; a
- chyflwyno gwaith TG mwy symbylus pan fo hynny'n addas.

Y berthynas gydag ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant:

- llunio protocolau er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a monitro a chofnodi cynnydd yn ofalus;
- ymestyn cyfleoedd i gydweithio gyda'r sector gwirfoddol; a
- datblygu gwaith a phartneriaethau all ymestyn a neilltuol gyda gwasanaethau Cyfiawnder yr Ifanc, Tîmau Troseddu Ieuenctid a'r heddlu pan fo hynny'n addas.

Rheoli adnoddau:

- sicrhau na ddisgwylir i bobl ifanc a staff weithio mewn amgylchedd anfoddhaol, a bod yr offer TG o safon resymol; a
- chynyddu nifer ac amrywiaeth y lleoliadau gwaith a chofnodi a dadansoddi canlyniadau.

Rheoli ansawdd:

- rhannu arfer da ynghylch cofnodi a monitro datblygiad personol pobl ifanc;
- gwella'r trefniadau i gydlynu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ag ymddygiad troseddol;
- cadw cynlluniau datblygu staff strategol ym mhob ardal, sy'n sicrhau hyfforddiant perthnasol, bod arfer da yn cael ei ledaenu a defnyddio arian CAGC neu arian cyfatebol yn effeithiol; a
- datblygu ffyrdd o gynnwys pobl ifanc yn ystyrlon yn y broses o arfarnu prosiectau.

11. Y gwasanaeth cefnogi ieuenctid newydd

Amlinellodd *Ymestyn Hawl (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000) a Phlant a Phobl Ifanc (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000)* weledigaeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc wedi'u cydlynu well. Maent yn awgrymu y bydd Partneriaethau Ieuenctid a Phlant Lleol, a arweinir gan Awdurdodau Lleol, yn llunio Fframwaith Plant a Phobl ifanc, a fydd yn cynnig trosolwg o'r holl wasanaethau i blant ym mhob ardal yn y cyd-destun lleol. Caiff proses ariannu'r Fenter Mynediad Ieuenctid ei huno â threfniadau ariannu eraill ar gyfer pobl ifanc mewn Cronfa i Gefnogi Plant a Phobl Ifanc o fis Ebrill 2002.

Yn ogystal, rhoddir pwyslais ar ymgynghori â phobl ifanc ynghylch y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Ar hyn o bryd, ni cheir llawer o ymgynghori gyda phobl ifanc ar Brosiectau Mynediad Ieuenctid, neu ddim o gwbl, er bod y rhain yn aml yn cynrychioli'r grwpiau mwy difreintiedig ac "anodd eu cyrraedd" y mae angen i gynllunwyr glywed oddi wrthynt.

Mae'r Fenter Mynediad Ieuenctid wedi gosod sylfeini ar gyfer rhywfaint o waith partneriaeth, ariannu integredig a pherthnasau ardderchog gyda phobl ifanc. Ceir rhai enghreifftiau cyfyngedig o hyd o "ystyriaethau ar y cyd" ynghylch pobl ifanc. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy wrth gynllunio gwasanaethau i ddelio ag anfodlonrwydd, helpu pobl ifanc i fanteisio ar hyfforddiant ac addysg bellach, ac yn arbennig, eu cynorthwyo i sicrhau medrau sylfaenol. Mae prosiectau mewn nifer o ardaloedd wedi'u hen sefydlu ac mewn sefyllfa, ynghyd â Phrosiectau Partneriaeth Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion, a gwasanaethau ieuenctid lleol, i ymrwymo i bartneriaethau estynedig i gefnogi, datblygu a symud ymlaen pobl ifanc ledled Cymru i fod yn oedolion.

Atodiad 1

Cefndir y Fenter Mynediad Ieuenctid

Roedd y Fenter Mynediad Ieuenctid yn rhaglen tair blynedd a ariannwyd o fis Ebrill 1998 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad). Fe'i cynlluniwyd fel rhaglen tair blynedd gyda rownd bidiau flynyddol. Ei nodau penodol oedd:

- helpu pobl ifanc dan oedran gadael ysgol sydd wedi rhoi'r gorau i addysg arferol, neu mewn perygl o wneud hynny, i'w hail-integreiddio i addysg ffurfiol neu symud ymlaen i fathau effeithiol eraill o addysg a hyfforddiant sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn; a
- helpu pobl ifanc sydd dros yr oedran gadael ysgol nad ydynt yn cael addysg, hyfforddiant neu swyddi i symud ymlaen i fathau effeithiol o addysg neu hyfforddiant neu swyddi.

Bwriadwyd hefyd y dylai'r rhaglen helpu pobl ifanc i wella'u medrau sylfaenol.

Sefydlwyd y Fenter Mynediad Ieuenctid o ganlyniad i ganfyddiadau nifer o ddogfennau ymchwil a pholisi a gyhoeddwyd er 1994 pan nododd adroddiad gan Gyngor Hyfforddi a Menter (CHM) Morgannwg, *Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, hyfforddiant na chyflgoaeth yn Ne Morgannwg,* er enghraifft, nad oedd 20% o'r bobl ifanc yn y rhanbarth oedd wedi gadael yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cael addysg, hyfforddiant na gwaith a'u bod "ar goll" yn y system. Roedd hwn yn ffigwr cyfartalog ar draws yr awdurdod ac mewn rhai ardaloedd o ddinas Caerdydd, roedd y ffigurau'n llawer uwch na hyn. Cadarnhaodd gwaith ymchwil mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr ffigurau arwyddocaol tebyg. Dilynwyd hyn gan gyfres o adroddiadau a phapurau ymgynghorol yn tanlinellu'r angen i ddelio â thangyflanwi, trwantiaeth ac anfodlonrwydd, gan nodi pobl ifanc sy'n wynebu "eithrio cymdeithasol" fel grŵp targed allweddol.

Ar ôl 1994, darparodd CHM arian dynodedig i helpu i ddenu pobl ifanc o'r fath sy'n 16 a 17 oed yn ôl i fyd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth trwy Arian Menter Lleol (AMLl). O wybod bod arfer da mewn rhannau o Gymru, ynghyd â peth llwyddiant, ehangodd rhai CHM hyn i gynnwys gwaith gyda phobl ifanc rhwng 14 a 16 oed. Ychwanegodd nifer o CHM arian ychwanegol o'u cyllidebau at hwn.

Nodau'r Fenter Mynediad Ieuenctid

Wrth sefydlu'r Fenter Mynediad Ieuenctid, bwriad y Llywodraeth oedd cynyddu'r gweithredu i ail-integreidido'r bobl ifanc hyn i fyd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chysylltu hyn â Hyfforddiant a Chymorth Addysg Grantiau'r Cynulliad (CAGC), gyda'r nod o ddatblygu ymyrraeth effeithiol yn gynharach. Yn ogystal â'r Fenter Mynediad Ieuenctid, darparwyd cyfrannau o arian trwy gyfrwng mentrau eraill gan Asiantaeth Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er enghraifft, i ariannu'r Rhaglen Bartneriaeth rhwng Ysgolion a Gwaith Ieuenctid. (Mae adroddiad ar wahân *Ansawdd a Safonau yn y Rhaglen Bartneriaeh rhwng Ysgolion a Gwaith Ieuenctid: tuag at wasanaeth ieuenctid newydd,* Estyn, 2001, yn adolygu cynnydd y prosiectau hyn.) Mewn rhai achosion, bu cyswllt agos rhwng y meysydd gwaith hyn a'r Fenter Mynediad Ieuenctid.

Rhagwelwyd y byddai pob asiantaeth sy'n gysylltiedig yn dysgu gwersi er mwyn i sefydliadau'r brif ffrwd fedru delio â'r materion eu hunain, a bod ymyrraeth o'r fath yn llai a llai angenrheidiol yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, cysylltwyd yr arian prosiect â CAGC er mwyn i ysgolion fedru lledaenu canlyniadau'r prosiectau yn yr awdurdod a gwella medrau athrawon wrth iddynt ddelio â phobl ifanc mewn perygl o gael eu heithrio.

Ni ragnodwyd unrhyw fodel neu lasbrint canolog gan y Cynulliad. Y bwriad oedd datblygu dulliau gweithredu lleol arloesol i'w datblygu'n gynlluniau gweithredu sy'n:

- datblygu arfer da cyfredol;
- pwysleisio lledaenu arfer da;
- pwysleisio cyswllt cwmnïau gyrfaoedd, y gwasanaeth ieuenctid, ysgolion, colegau addysg bellach a'r sector gwirfoddol;
- mynd i gael eu cysylltu â chynlluniau eraill awduroddau lleol (ALl), er enghraifft gwasnaethau plant, yn enwedig o ran plant sy'n derbyn gofal;
- denu arian arall i wella cynlluniau; er enghraifft arian Ewropeaidd (CEE) a Chynlluniau Datblygu Stratgeol (CDS); a
- gosod targedau i'r asiantaethau sy'n gysylltiedig ac ar gyfer cynnydd pobl ifanc.